



CASNEWYDD

UWCHGYNLLUN CANOL Y DDINAS

UWCHGYNHADLEDD DINAS CASNEWYDD | 18 IONAWR 2018

LANSIO YMGYNGHORIAD YR UWCHGYNLLUN





Dros y 15 mlynedd diwethaf, mae Casnewydd wedi'i thrawsnewid gan brojectau adfywio gan gynnwys creu cartrefi newydd ar diroedd diffaith a safleoedd tir llwyd; sefydlu campws prifysgol o'r radd flaenaf ynghanol y ddinas, dod â bywyd newydd i adeiladau hanesyddol ac arwyddocaol gwag, ac, wrth gwrs, agor cynllun siopa a hamdden Friars Walk.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi gweithio â phartneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat, a'r trydydd sector i wneud newidiadau cadarnhaol a phwysig sydd o fudd i fusnesau, trigolion a'r economi leol. Rydym wedi ymrwymo i barhau i arwain y ffordd i sicrhau bod twf a datblygiad Casnewydd yn ymestyn yn bell i'r dyfodol.

Mae nifer o brojectau cyffrous ar y gweill sy'n sicr o hybu cyfleoedd economaidd ac addysgol, a chyflogaeth yn y ddinas.

Mae gan Casnewydd lawer i'w gynnig gan ei bod daflad carreg o'r M4, a bydd trydaneiddio'r rheilffordd yn golygu y bydd modd teithio i'r ddinas o Lundain a rhannau eraill o'r DU yn llawer cyflymach.

Mae pobl fusnes, buddsoddwyr a datblygwyr yn ymddiddori fwyfwy yn y ddinas, ac rydym yn gweithio gyda nhw, Llywodraeth Cymru a chyrff strategol pwysig eraill i sicrhau bod y ddinas yn cyflawni ei llawn botensial.

Fel rhan o'r gwaith caled ac ymrwymedig hwnnw, rydym am symud ymlaen at y cam nesaf yn adfywiad canol y ddinas, ac yn awyddus i gynifer o bobl â phosibl i gyfrannu at ddatblygiad uwchgyllun ar gyfer calon Casnewydd.

Bydd yn amlinellu strategaethau a blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr, canolig a hir, sydd oll yn allweddol os yw Casnewydd i ddatblygu fel y lle gorau i fyw, gweithio a gwneud busnes ynddi.

Y Cyngorydd Debbie Wilcox
Arweinydd Cyngor Casnewydd

YMGYNGHORIAD YR UWCHGYNLLUN DWEUD EICH DWEUD

Mae eich cyngor yn awyddus i glywed eich barn am y cynigion a ddisgrifir ar y daflen hon a sut gallech chi neu eich sefydliad helpu i wireddu potensial llawn y ganolfan.

Ewch i: www.newport.gov.uk/haveyoursay

Neu ysgrifennwch i:
Ymgynghoriad yr Uwchgyllun, Adfywio, Buddsoddi a Thai,
Cyngor Dinas Casnewydd, y Ganolfan Ddinesig,
Godfrey Road, Casnewydd, NP20 4UR

Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ddydd Llun 5 Mawrth.

GWELEDIGAETH AR GYFER CANOL Y DDINAS

Ers cychwyn, mae Arweinydd y cyngor, aelodau'r cabinet ac uwch swyddogion y cyngor wedi bod yn gweithio i ddatblygu strategaeth uwchgynllun a'i flaenoriaethau. Lluniwyd y weledigaeth ganlynol i gynrychioli lefel y llwyddiannau hyd yma ar angen pragmatig i barhau i lywio a chyflawni newidiadau cadarnhaol.

“**Calon fyrlymus, wedi ei hadfywio ar gyfer y ddinas, gyda hunaniaeth gref ac annibynnol ei gwreiddiau yn hanes Casnewydd, a'i hwyneb tua'r dyfodol, yn parhau'r symbyliad a gychwynnwyd gan lwyddiannau diweddar**”

STRATEGAETH YR UWCHGYNLLUN



Mae strategaeth yr uwchgynllun yn adeiladu'n bragmatig ar hanes o brojectau wedi eu gweithredu'n llwyddiannus ar gwaith paratoi a wnaed i allu defnyddio asedau'r Cyngor i'w llawn botensial.

Mae rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid y Cyngor wedi dod â nifer o adeiladau ag wyneb hanesyddol yn ôl i ddefnydd. Mae Canolfan Siopa Friars Walk yn parhau i ddenu siopwyr ac ymwelwyr gyda'r nos i'r bwytaï ac mae Campws y Ddinas Prifysgol De Cymru wedi creu cnewyllyn bywiog ar lan yr afon.

Yn ogystal, mae strategaeth yr uwchgynllun yn gydnaws â'r bartneriaeth barhaus gyda rhanddeiliaid allweddol a buddsoddwyr a datblygwyr posibl er mwyn creu datblygiadau o safon.

Bydd Cyngor y Ddinas yn gyntaf yn pwysleisio cynllunio a gweithredu projectau ym Mhorth y Gogledd a chanol y ddinas a gosod seiliau ar gyfer newid yn Ardal Glan-yr-afon yn y tymor canolig i'r hirdymor.

Mae'r camau gweithredu ym mhob ardal ddatblygu yn y tabl dros y ddalen.

ARDALOEDD DATBLYGU

Mae'r cynllun gofodol yn nodi tair ardal ddatblygu eang. Ym mhob ardal mae nifer o brif safleoedd datblygu a chyffleoedd gwella ardal gyhoeddus.



YR AMCANION

Mynegir y weledigaeth ymhellach trwy'r amcanion canlynol:

DINAS GROESAWGAR

cynnig amgylchedd croesawgar a chynnig marchnata, gwybodaeth a chyfarwyddiadau cydlynol.

DINAS GYSYLLTIEDIG

gwella symudiad yng nghanol y ddinas ac o'i amgylch a rhoi mynediad hawdd trwy drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio.

DINAS AMRYWIOL

integreiddio ystod eang o ddefnydd tir a gweithgareddau ac amrywiaeth o bobl yn byw ac yn defnyddio canol y ddinas at ddibenion gwahanol ar wahanol adegau o'r dydd a nos.

DINAS WEDI EI HADNEWYDDU

trwsio adeiladwaith y ddinas, ailddefnyddio adeiladau gwag a rheoli a dathlu asedau allweddol.

DINAS GLAN YR AFON

defnyddio potensial yr afon a glannau'r afon ar gyfer gweithgareddau, digwyddiadau a datblygiadau fel ffynhonnell allweddol yn ei hunaniaeth.

DINAS Â LLEOEDD O SAFON

cynnwys ardal gyhoeddus ar wahân, sy'n atyniadol i ymwelwyr o'r ddinas ar ardal ehangach a chodi proffil y ddinas yn y cyffiniau.



Y CYNIGION

ARDAL I: Porth y Gogledd

Gwella'r cysylltiadau o'r orsaf drenau ac adnewyddu ac adfer asedau allweddol.

Prif Broiectau:

Ardal swyddfeydd: cynyddu nifer y gofodau Gradd A/B o safon uchel sydd gyfagos â'r orsaf.

Safleoedd y porth ar ardal gyhoeddus: gwella'r gwaith o arolygu manau cyhoeddus a datblygu safleoedd nas defnyddir.

ARDAL II: Canol y Ddinas

Cydyfnerthu trwy ddatblygu ac amrywio defnydd tir.

Prif Broiectau:

Ardal Wybodaeth Casnewydd: cyfleusterau addysg newydd ar hyd glannau'r afon.

Adeiladau allweddol: ailddefnyddio neu ddymchwel adeiladau gwag.

Canol Dinas Cysylltiedig: gwella dulliau trafnidiaeth ar lleiniau gwyrdd.

ARDAL III: Glan-yr-Afon

Creu cysylltiadau gwell ac integreiddio cyfleusterau chwaraeon, datblygiadau newydd a glan-yr-afon yn fwy llwyddiannus.

Prif Broiectau:

Clarence Place: adfywio ac ailfywiogi.

Chwaraeon a hamdden: gwella mynediad at y stadiwm a pha mor weladwy ydyw.

Ardal gyhoeddus glan-yr-afon: cwblhau'r gylched ymwelwyr.



DYDDIADAU ALLWEDDOL

Porth y Gogledd

1. Y Swyddfa Ddidoli Gynt
2. Arcêd y Farchnad
3. Marchnad dan do
4. Rhyngwyneb Canolfan Cambrian

Canol y Ddinas

5. Gwesty'r Westgate
6. Tŵr y Siartwyr
7. Canolfan Casnewydd
8. 123-129 Commercial Street
9. Tir Estyn y Brifysgol

Glan-yr-Afon

10. Clarence Tower
11. Clarence Place
12. Crown Buildings
13. Stadiwm Rodney Parade



PRIF BROJECTAU

Ardaloedd datblygu	Projectau	Tymor byr (1-3BL)	Tymor Canolig (3-5BL)	Hirdymor (5-8BL)
ARDAL I: Porth y Gogledd	Craidd Swyddfeydd	Arcêd y Farchnad Marchnad dan do Cyn-Swyddfa Ddidoli Rhyngwyneb Canolfan Cambrian		Heol y Bont/ Station Street
	Safleoedd Porth ac ardal gyhoeddus	Cysylltu Devon Place Stryd Fawr, ardal gyhoeddus	Cynllun strategol Cynnig: cyn safle Sainsbury Heol y Bont Cambrian Road	
ARDAL II: Canol y Ddinas	Adeiladau Allweddol	Tŵr y Siartwyr 123-129 Commercial Street	Canolfan Kingsway Gwesty'r Westgate	Lower Dock Street Eglwys Sant Pawl
	Canol dinas cysylltiedig	Ardal gyhoeddus Commercial Street Ardal gyhoeddus Usk Way (de)	Chapel Park Ardal gyhoeddus a maes parcio Emlyn Street Maes parcio ac ardal gyhoeddus Park Square Ardal gyhoeddus Heol Charles Jack's Pill Queensway	Maes parcio Park Square Meysydd parcio Stow Hill Cylchfan Pont Octopus
	Ardal Wybodaeth Casnewydd/ Canol Casnewydd	Cynnig cynllun strategol: Ardal Wybodaeth Casnewydd		
ARDAL III: Glan-yr-Afon	Clarence Place	Clarence Tower Clarence Place	Adeiladau Crown, Chepstow Road	
	Chwaraeon a hamdden		Cynnig cynllun strategol: Stadiwm Rodney Parade	
	Ardal gyhoeddus Glan-yr-afon	Cylch Glan-yr-afon Pont George St/ Coverack Road	Ardal gyhoeddus Clarence Place Cyril Street ac Argosy Way	

GWIREDDU



ARIAN

Rhagwelir y gweithredir projectau trwy ystod o lwybrau'r sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae'r ansicrwydd macro-economaidd yn awgrymu y bydd angen i'r strategaeth fod yn hyblyg a gallu ymateb i amgylchiadau'n newid dros amser. Mae ymholiadau gan ddatblygwyr a buddsoddwyr preifat wedi cynyddu yn sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, yn cyfateb i'r farchnad yn dod yn fwy ymwybodol o botensial y ddinas.

Mae'r Cyngor yn chwarae rôl allweddol wrth helpu i gysylltu diddordeb cadarnhaol â safleoedd cyfle allweddol a mynd i'r afael â rhwystrau rhag datblygu, yn cynnwys creu mwy o sicrwydd trwy'r system gyllunio.

Yn ychwanegol, bydd y Cyngor yn ystyried defnyddio ei bwerau llywodraeth leol i brynu tir ac eiddo yn orfodol a bydd yn ceisio cytundebau i sicrhau cyfraniadau gan ddatblygwyr pan fo'n addas.

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Bydd y Cyngor yn defnyddio ei adnoddau ei hun yn cynnwys asedau tir ac eiddo i weithredu prif brojectau naill ai mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol neu trwy gytundeb â datblygwyr preifat. Mae Llywodraeth Cymru wedi addo arian i gynorthwyo â'r canlynol:

- Adnewyddu hen Arcêd y Farchnad ar y Stryd Fawr.
- Rhaglen Llefydd Llewyrchus Llawn Addewid II.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cynigion gan Brifysgol De Cymru a Choleg Gwent er mwyn creu Ardal Wybodaeth Casnewydd.

Rhagwelir y bydd gweithredu projectau catalyddol yn gwella amgylchedd busnes canol y ddinas, codi nifer y graddedigion prifysgol a choleg cymwys, cynyddu nifer y Busnesau Bach a Chanolig yn y sectorau digidol, creadigol a lletygarwch a chodi nifer ymwelwyr yn sylweddol.

Bwriedir i'r agweddau hyn roi hwb cadarnhaol i fuddsoddiadau gan fusnesau sy'n bodoli a rhai newydd.

Sefydliadau partner:





DWEUD EICH DWEUD

Mae eich cyngor yn awyddus i glywed eich barn am y cynigion a ddisgrifir ar y daflen hon a sut gallech chi neu eich sefydliad helpu i wireddu potensial llawn y ganolfan.

Ewch i: www.newport.gov.uk/haveyoursay

Neu ysgrifennwch i:
Ymgynghoriad yr Uwchgynllun,
Adfywio, Buddsoddi a Thai,
Cyngor Dinas Casnewydd,
y Ganolfan Ddinesig,
Godfrey Road,
Casnewydd, NP20 4UR

Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ddydd Llun 5 Mawrth.

